Manifesto Marie Curie 2019

# System fudd-daliadau decach ar gyfer yr holl bobl â salwch angheuol yng Nghymru

Mae twf yn y boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru, a rhagwelir y bydd cynnydd o 3.6% yn y nifer o bobl 65 oed a hŷn rhwng 2016 a 2041[1]. Rhagwelir y bydd cynnydd yn ogystal mewn cyfraddau salwch terfynol, gydag anghenion mwy cymhleth nag erioed o'r blaen.[2]

Pan mae rhywun yn cael ei effeithio â salwch angheuol, nid yn unig y mae angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel – gall derbyn cymorth lles yn hawdd a chyflym fod yn hanfodol hefyd. Mae'r Etholiad Cyffredinol sydd ar ddod yn gyfle pwysig i gyflawni newid sydd fawr ei angen i'r system fudd-daliadau ar gyfer yr holl bobl â salwch angheuol yng Nghymru a gweddill y DU.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym yn gofyn i'r holl bleidiau gwleidyddol yng Nghymru wneud addewid i gael gwared â'r 'rheol chwe mis' sy'n rhwystr i bobl â salwch angheuol gael derbyn budd-daliadau os na allan nhw brofi mai chwe mis yn unig sydd ganddyn nhw i fyw.

## Cael gwared â'r rheol chwe mis

Ar gyfer rhywun sydd â salwch angheuol, gall derbyn cymorth lles fod yn hanfodol. Gall fod ei incwm wedi gostwng yn sylweddol oherwydd na all weithio mwyach, ac yn ogystal mae'n debygol o wynebu costau ychwanegol anferth am bethau fel cyfarpar ac addasiadau i'w gartref, biliau gwresogi, biliau ynni a biliau teithio uwch a bwyd arbenigol.

Mae'r system les fod i ddarparu rhwyd ddiogelwch yn ystod amseroedd fel hyn, ond mae'r rheol bresennol sydd angen i bobl â salwch angheuol brofi mai chwe mis sydd ganddyn nhw ar ôl i fyw er mwyn cyflymu'r broses o gael budd-daliadau yn golygu bod pobl yn methu â chael y gefnogaeth y maen nhw ei hangen neu maen nhw'n wynebu disgwyl hir a llawer o fiwrocratiaeth er mwyn derbyn cefnogaeth ariannol.

Mae pobl â salwch angheuol sy'n gwneud cais am Gredyd Cynhwysol a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gorfod cwblhau Asesiadau Gallu i Weithio a mynychu sesiynau gyda hyfforddwyr swyddi er mwyn parhau i dderbyn eu budd-daliadau. Mae'r rhai sy'n ymgeisio am PIP yn gorfod disgwyl hyd at 13 wythnos neu fwy i dderbyn eu taliadau.

[1]Gweddill.llyw.cymru. (2019). Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
[2]Marie Curie (2015) Changing the Conversation.

Charity reg no. 207994 (England & Wales), SC038731 (Scotland) E397b

Marie Curie
Care and support through terminal illness

## Maniffesto Marie Curie 2019

Nid oes unrhyw sail glinigol na sail wyddonol i'r rheol chwe mis – mae arbenigwyr iechyd a gofal cymdeithasol wedi gofyn yn gyhoeddus am gael gwared o'r rheol. Drwy gael gwared â'r rheol chwe mis o lyfr statud San Steffan ac yn lle hynny ymddiried mewn meddygon a nyrsys i ddefnyddio eu barn ynglŷn â phan mae rhywun â salwch angheuol, gallwn ni greu system fudd-daliadau decach a mwy trugarog am y gost leiaf bosibl.

Wrth dderbyn budd-daliadau yn briodol, gall pobl wresogi eu cartrefi yn well, fforddio'r bwyd y maen nhw ei angen a gwneud yr addasiadau i'w cartref a all eu helpu nhw i aros draw o'r ysbyty ar ddiwedd eu oes. Mae potensial i gyflawni arbedion anferth i'r system Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a thrwy'r DU drwy wario ychydig mwy o arian yn y gyllideb les.

Credwn fod pobl Cymru yn haeddu derbyn y budd-daliadau y maen nhw â hawl gyfreithlon i'w cael. Rydym yn galw ar ASau yn San Steffan i gyflawni'r newid hwn sydd fawr ei angen drwy'r DU.

Ni ddylai pobl sydd â salwch angheuol orfod treulio'r amser sydd ganddyn nhw ar ôl i fyw yn brwydro am gefnogaeth ariannol. Bydd cael gwared â'r rheol chwe mis greulon ac annheg hon yn helpu i sicrhau bod pobl sy'n marw yn derbyn y budd-daliadau y maen nhw eu hangen, pan maen nhw eu hangen.

Derbyniodd Martine Adams, 28 oed o'r Barri yng Nghymru ddiagnosis o diwmor glioniwronol leptofreithellol ymledol sef canser prin o'r system nerfol ganolog. Mae hi'n siarad am ei phrofiad. Mae Martine yn briod â Scott, a oedd yn dioddef o lewcemia myeloid aciwt ers pan oedd yn 2 oed ac ni chafodd ei ryddhau o ofal tan y llynedd.

*"Rydw i'n cofio ffonio PIP, pwyso'r rhif am angheuol oherwydd dywedwyd wrthyf ei fod yn angheuol, a dywedodd y ddynes ar y ffôn 'Helo, a oes gennych chi chwe mis neu lai i fyw?" Dywedais innau 'na' ac atebodd hithau 'O, wel dyna beth yw diben hyn'. Rydw i'n cofio holi a oeddwn i'n angheuol, a gwnes i ei ragweld. "Siaradais gyda fy nyrs a dywedodd hi 'Ydi, mae fel clefyd Alzheimer, dementia ac MS. Mae pob un yn salwch angheuol. Dyna beth sydd gennych chi'. Rydw i'n cofio meddwl nad oedd yn gwneud unrhyw synnwyr – ni allwch ddweud wrth rywun pan maen nhw'n angheuol ac yna dweud rhywbeth arall, a dyna beth oedd yn digwydd."*

## Beth yw Marie Curie?

Marie Curie yw'r arweinydd yn y ddarpariaeth o ofal a chefnogaeth i bobl â salwch angheuol yng Nghymru. Rydym yn darparu amrediad o wasanaethau, gan gynnwys Hosbis Marie Curie Caerdydd a'r Fro, Gwasanaeth Nyrsio a Gwasanaeth ar gyfer Cynorthwywyr. Y llynedd, gwnaethom ddarparu gofal a chefnogaeth ar gyfer dros 3,500 o bobl sydd yn byw â salwch angheuol yng Nghymru, eu gofalwyr a'u hanwyliaid.

Yn ogystal, ni yw cyllidwr elusennol mwyaf ar gyfer ymchwil gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn y DU. Rydym yn ymgyrchu i wella'r ansawdd a'r modd y gellir derbyn gofal lliniarol a gofal diwedd oes, a'n huchelgais yw bod pawb yn gallu derbyn gofal lliniarol a gofal cymdeithasol ansawdd uchel ar ddiwedd eu hoes; bod pawb sy'n byw gyda salwch angheuol yn derbyn y gefnogaeth ariannol y maen nhw eu hangen, ac nad oes unrhyw un yn treulio dyddiau olaf eu bywydau mewn poen a thrallod diangen.

## Er mwyn cael mwy o wybodaeth

**Simon Jones**

*Cyfarwyddwr, Polisi a Materion Cyhoeddus, y DU*

Ffôn: 02929 426038

E-bost: simon.jones@mariecurie.org.uk

**Gwyneth Sweatman**

*Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Cymru*

Ffôn: 02920 426057

E-bost: gwyneth.sweatman@mariecurie.org.uk